# CYNGOR CYMUNED LLANDYSUL COMMUNITY COUNCIL

**Cofnodion Cyfarfod Misol Cyngor Cymuned Llandysul Community Council a gynhaliwyd yng Nghanolfan Ieuenctid Tysul Youth Centre, Llandysul a thrwy gyfrwng Zoom, ar 9fed Chwefror 2026**
**Minutes of Monthly Meeting of Cyngor Cymuned Llandysul Community Council held at Canolfan Ieuenctid Tysul Youth Centre, Llandysul and via Zoom, on 9th February 2026**

**Yn Bresennol/Present:**
Cynghorwyr/Councillors Eileen Curry, Beth Davies, Douglas Davies, Heddwen Davies, Gethin Jones (Cadeirydd/Chair), Sue Lloyd, Eifion Rees a/and Keith Evans sydd hefyd yn/ who is also Gynghorydd Sir De Llandysul / County Councillor Llandysul South a/and Chynghorydd Sir Gogledd Llandysul a Throedyraur/ County Councillor Llandysul North Troedyraur Maldwyn Lewis
**Ymddiheuriadau/Apologies** Derbyniwyd ymddiheuriadau wrth Gynghorydd Beth Davies a fyddai'n cyrraedd yn hwyr. Apologies for absence were received from Cllr Beth Davies who would be arriving late.
**Datgelu Buddiannau/Declarations of Interest** Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiannau. / No declaration of interest was received.

**Adroddiad/Report**

Ni dderbyniwyd adroddiad gan y PCSO yn rhoi diweddariad am y Troseddau a'r Digwyddiadau yn ardal y Cyngor. / No report was received from the PCSO providing a Crime and Incident Update for the Councils area.

**Cofnodion/Minutes**
Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod misol a gynhaliwyd ar 12.01.26 / Minutes of monthly meeting held on 12.01.26 were confirmed.

DRAFT

**Materion yn Codi: -**

Bydd y clerc yn ceisio eglurder am yr hyn y mae'r rheoliadau yn ei nodi o ran grisiau ar gyfer y safle bws.

Roedd y clerc wedi cysylltu â John Davies, Ceredigion ynghylch y biniau halen. Roedd Cynghorydd Keith Evans wedi cyfarfod â Mr Davies, a aeth o gwmpas y lleoliadau lle'r oeddem yn dymuno gosod y biniau halen. Rydym yn aros am adroddiad gan Mr Davies nawr.

**4) Ceisiadau Ariannol:**

Ni chafwyd unrhyw geisiadau ariannol.

**Gohebiaeth**

Cafwyd llythyr yn diolch i'r cyngor am y rhodd o £150 gan Eisteddfod Gadeiriol Capel y Fadfa, Talgarreg.

**5) Materion i'w Trafod**

**Sedd Wag, Ward Tref Llandysul**

Mae 3 sedd wag yn Ward Tref Llandysul o hyd. Anogwyd yr aelodau i chwilio am ddarpar aelodau. Bydd y clerc yn adrodd wrth y Cyngor Sir am y sedd wag.

**Lle Chwarae Plant Llandysul**

Penderfynwyd y dylai'r clerc anfon llenyddiaeth / catalogau gan gwmnïau y gallem brynu offer ganddynt, i'r Cynghorwyr. Roedd y clerc wedi cael llythyr gan y Cyngor Sir yn gofyn a hoffem ailgyflwyno cais am offer chwarae i blant a anfonwyd ym mis Mehefin, ond a fu'n aflwyddiannus. Roedd y clerc yn aros am ateb o hyd.

**Gwaith trwsio cyffredinol a Chynnal a Chadw Tir**

Bydd y clerc yn paratoi'r dogfennau tendro ac yn eu hysbysebu ar y wefan, gan roi gwybod i'r darparwyr presennol o'r angen i

**Matters Arising: -**

Clerk to follow up and seek clarity on what the regulations says for steps for the bus stop is.

Clerk had contacted John Davies. Ceredigion with regards to the salt grit bins. Cllr Keith Evans met with Mr Davies who went around the locations we wished for the salt grit bins were to be placed. We are now awaiting a report from Mr Davies.

**4) Funding Applications:**

There were no funding requests.

**Correspondence**

A letter thanking the council for the donation of £150 was received from Eisteddfod Gadeiriol Capel y Fadfa, Talgarreg.

**5) Matters for Discussion**

**Vacant Seat Llandysul Town Ward**

There are still 3 vacant seats in Llandysul Town Ward. Members were encouraged to seek potential members. Clerk to report the vacancy to the County Council.

**Llandysul Children's Play area**

It was decided that clerk email Councillors with literature / catalogues from companies where we might procure equipment from. The clerk had received a letter from the County Council asking if we would like to re-submit an application for children's play equipment that had sent in in June but had been unsuccessful. The clerk was still awaiting a response.

DRAFT

ailymgeisio os oes ganddynt ddiddordeb.

**Grantiau**

Bu’r cais am grant o hyd at £10,000 gan fenter Trefi Taclus Cynnal y Cardi yn llwyddiannus.  Cytunwyd ar y gwaith canlynol

- Paentio’r rheiliau a’r bolardiau ger y safle bws gwaelod
- Prynu 8 mainc wedi’u gwneud o ddeunydd wedi’i ailgylchu.  Caiff yr hen feinciau eu hailgylchu o gwmpas y cae chwarae criced a’r parc.
- Prynu dillad llachar ar gyfer gwirfoddolwyr.
- Trwsio’r toiledau cyhoeddus yn Llandysul er mwyn helpu’r Cyngor Sir i ailagor y cyfleuster.

**Materion Ward Brys**

**Llandysul**

Adroddodd Cynghorydd Keith Evans y cynhaliwyd cyfarfod ymgynghori cyhoeddus yng Ngwesty Porth, yn ceisio safbwyntiau pobl am y defnydd posibl o leoedd gwag ar hen gaeau chwarae Ysgol Dyffryn Teifi a chyn gartref preswyl Awel Deg yn y dyfodol.  I’r rhai na fu modd iddynt fynychu’r digwyddiad, gweler gwefan Ceredigion am wybodaeth ynghylch sut y gallwch ymateb.
Cynhelir ymgynghoriad cyhoeddus a fydd yn holi barn pobl.

**Capel Dew**i

Roedd Cynghorydd Douglas Davies yn dymuno adrodd am y canlynol hefyd:-

- Cyflwr y ffordd o Gapel Dewi i Gwmsychpant
- Y ffordd sy’n arwain i Alphabeds.

Bydd y clerc yn adrodd am y materion hyn i Geredigion trwy system Galw am Wasanaeth Clic.

**Pontsiân**

Adroddodd Cynghorydd Gethin Jones am yr angen i lenwi tyllau ar hyd y ffordd rhwng Coedfryn a'r hen Ysgol.

**General repairs and Ground Maintenance**

The clerk to prepare the tender documents and advertise them on the website and to advise current providers of the need to re-apply if interested.

**Grants**

The grant application of up to £10,000 from Cynnal y Cardi’s Tidy Towns grant imitative had been successful.The following works had been agreed to

- Painting of the railings and bollards by the bottom bus stop
- Purchase of 8 recycled material benches. The old benches to be recycled around the cricket playing field and park.
- Purchase of high vis clothing for volunteers.
- Repair of the public toilets in Llandysul to help aid the re-opening of the facility by County Council.

**Urgent Ward Matters**

**Llandysul**

Cllr Keith Evans reported that a public consultation meeting had been held at the Porth Hotel, seeking people’s views regards potential future use of regarding the vacant spaces on Ysgol Dyffryn Teifi’s the old playing fields and Awel Deg former residential home. For those unable to attend on the day, please visit Ceredigion’s website for information on how you can respond.
There would be a public consultation which will be asking what people’s views are.

**Capel Dew**i

DRAFT

Adroddodd Cynghorydd Sue Lloyd am bwll dŵr enfawr ar y ffordd ger Llwyn Teg, Maesymeillion.

**Tre-groes**

Roedd draeniau ar y ffordd y tu ôl i Dŷ Newydd Gorrig wedi cael eu clirio yn rhannol hanner ffordd i fyny'r ffordd, ond mae angen clirio'r rhain yn gyfan gwbl er mwyn i'r gwaith fod yn effeithiol.
Adroddodd Cynghorydd Eileen Curry bod nifer fawr o dyllau sydd wedi cael eu trwsio yn dechrau ailymddangos nawr. Bydd y clerc yn tynnu sylw Ceredigion at y materion yn trwy eu system galw am wasanaeth Clic.

**Adroddiad gan Gynghorwyr Sir**

Cafwyd gohebiaeth ar ffurf neges e-bost yn ôl y gofyn, yn rhoi gwybodaeth i'r Cyngor am weithgareddau Cynghorydd Keith Evans Ward de Llandysul yn ystod y cyfnod rhwng 13 Ionawr 2026 a 9 Chwefror 2026 ac fe'i nodwyd. Ymhelaethodd Cynghorydd Keith ar y cynigion ynghylch cyllideb Ceredigion, a dywedodd ei fod wedi dadlau dros waredu'r taliadau parcio yn Llandysul unwaith eto, ond y bu'n aflwyddiannus. Fodd bynnag, roedd wedi llwyddo i gyflwyno'r achos dros ddarparu cyllid refeniw ar gyfer elfen y pwll yng Nghalon Tysul, a fyddai'n werth £30,000. Mae pwyllgor craffu Cymunedau Iachach eisoes wedi cefnogi'r alwad hon, a chaiff y penderfyniad ei wneud amdano yn ystod cyfarfod llawn y Cyngor ar 2 Mawrth 2026. Tynnodd Cynghorydd Maldwyn Lewis sylw at faterion yr oedd wedi delio â nhw yn ystod yr un cyfnod, gan gynnwys y codiad arfaethedig tebygol i'r Dreth Gyngor.

**Gohebiaeth**

Cafwyd Clerks and Councils Direct ac fe'i nodwyd.

**Cynllunio**

Ni chafwyd unrhyw geisiadau cynllunio.

**Gwybodaeth Ariannol**

Cllr Douglas Davies wished to also report the following:-

- The state of the road from Capel Dewi to Cwmsychpant
- The road leading to Alphabeds.

The clerk to report these issues to Ceredigion via the Call for Service Clic system.

**Pontsian**

Cllr Gethin Jones reported the need to fill potholes on the road between Coedfryn and the old School.
Cllr Sue Lloyd reported a massive puddle on the road by Llwyn Teg, Maesymeillion.

**Tregroes**

Drains on the road behind Ty Newydd Gorrig had been partially cleared up to halfway up along the road but the entire length of the drains needed to be cleared for the work to be effective.
Cllr Eileen Curry reported that a lot of the potholes that have been repaired are now starting to re-appear.
Clerk to bring these issues to the attention of Ceredigion via their Clic call for service system.

**Report by County Councillors**

E-mail correspondence was received as requested providing the Council with detailed information on Cllr Keith Evans Llandysul South wards' activities for the period 13th January 2026 – 09 February 2026 and noted. Cllr Keith expanded on the issue of Ceredigion's budget proposals and stated that he had again argued for the removal of parking charges at Llandysul but was unsuccessful. However he had been successful in making the case for the provision of revenue funding for the pool element of Calon Tysul in the sum

DRAFT

Llinos Jones – Ysgrifennwyd siec am y swm o £173.89 am y gwasanaeth cyfieithu ym mis Ionawr.
LAS Recycling Ltd - Ysgrifennwyd siec am y swm o £63.36 am gasglu sbwriel o Barc Coffa Llandysul a Chaeau Tirdref ym mis Ionawr.
Glasdon – Ysgrifennwyd siec am y swm o £12.17 am allweddi a brynwyd ar gyfer y bin sbwriel yn Nhre-groes.
Fedwen – Ysgrifennwyd siec am y swm o £141.95 am gloeon ac allweddi newydd ar gyfer yr hysbysfwrdd ym maes parcio Llandysul.

of £30k. Healthier Communities scrutiny committee and Cabinet has already supported this call, and it will be determined at full Council meeting on March 2nd 2026.
Cllr Maldwyn Lewis drew attention to issues that he had dealt with over the same period and including the likely proposed increase in Council Tax.

**Correspondence**

Clerks and Councils Direct were received and noted.

**Planning**

No planning applications were received.

**Financial Information**

Llinos Jones – Cheque for £173.89 was written for January translation.
LAS Recycling Ltd - Cheque was written for £63.36 for refuse collection from Llandysul Memorial Park and Tirdref Fields for the month of January.
Glasdon – Cheque was written for £12.17 for keys purchased for the refuse bin in Tregroes.
Fedwen – Cheque was written for £141.95 for replacement locks and keys for the noticeboard in Llandysul carpark.

DRAFT

Arwyddo Sieciau/Signing of Cheques:

*Gorchmynnwyd ac i'w tynnu gan y Trysorydd/*
*Ordered and same are hereby drawn on the Treasurer:-*

*£ c/£ p* *Rhif siec/ Cheque number*

## *Sieciau Mis Chwefror /February Cheques*

| | | | |
|---|---|---|---|
| Llandysul Pontweli Ymlaen | Rhodd/Donation | 1000.00 | 001400 |
| Nia Davies | Cyflog y Clerc Hydref | 653.43 | 001401 |
| HMRC | Cyflog y Clerc Hydref | 163.40 | 001402 |
| Glasdon UK Ltd | Allweddi/Keys (Tregroes) | 12.17 | 001403 |
| LAS | Sbwriel/Refuse | 63.36 | 001404 |
| Llinos Jones | Cyfieithu/Translating | 173.89 | 001405 |
| Fedwen | Allweddi/Keys (Maes Parcio Llandysul) | 141.95 | 001406 |
| Neuadd Tregroes | Rhodd/Donation | 7500.00 | 001407 |

DRAFT